**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 5 Ionawr, 2017 am 10.00 am**

**MYNYCHWYR:** Y Cynghorydd Sir S. Jones (Cadeirydd)

Cynghorwyr Sir: D. Dovey, D. Edwards, J. Prosser, A. Wintle.

Hefyd yn bresennol Cynghorwyr Sir: P.A. Fox, R.J.W. Greenland, P. Murphy, A. Easson, R. Harris, J. Higginson, V. Smith.

**SWYDDOGION YN BRESENNOL:**

| | |
|---|---|
| Kellie Beirne | Chief Officer, Enterprise |
| Peter Davies | Chief Officer, Resources |
| Cath Fallon | Head of Economy and Enterprise |
| Joy Robson | Head of Finance/Section 151 Officer |
| Ian Saunders | Head of Tourism, Leisure and Culture |
| Richard Jones | Policy and Performance Officer |
| Marie Bartlett | Finance Manager |
| James Woodcock | Business Insights Manager |
| Hannah Jones | Youth and Community Officer |
| Richard Williams | Democratic Services Officer |
| Nicola Perry | Senior Democracy Officer |

**YMDDIHEURIADAU:**

Cynghorwyr Sir S. White, D. Evans.

1. **Datganiadau o Fuddiant**

Datganodd y Cynghorydd Sir S. Jones fuddiant personol nad yw'n rhagfarnu yn unol â Chod Ymddygiad yr Aelodau parthed Eitem 6 ar yr agenda – Asesiad Risg Strategol 2016, ynghylch yr ardoll brentisiaethau a'r ailbrisio ardrethi.

2. **Fforwm Agored i'r Cyhoedd.**

Nid oedd aelodau o'r cyhoedd yn bresennol.

3. **Cadarnhau cofnodion y cyfarfod blaenorol**

Cadarnhawyd cofnodion y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygiad dyddiedig 24ain Tachwedd 2016 ac fe'u llofnodwyd gan y Cadeirydd.

4. **Drafft Gynigion Cyllideb Gyfalaf 2017/18 i 2020/21.**

**Cyd-destun:**

Amlinellu'r gyllideb gyfalaf arfaethedig ar gyfer 2017/18 a'r cyllidebau cyfalaf dangosol ar gyfer y tair blynedd 2018/19 i 2020/21.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 5 Ionawr, 2017 am 10.00 am**

**Materion Allweddol:**

**Materion yn ymwneud â'r Cynllun Ariannol Cyfalaf Tymor Canolig (CATC):**

- Adolygir y rhaglen gyfalaf bedair blynedd yn flynyddol a chaiff ei diweddaru er mwyn ystyried unrhyw wybodaeth newydd sy'n berthnasol.

- Y brif gydran ar gyfer y CATC cyfalaf ar gyfer yr ychydig flynyddoedd nesaf yw'r rhaglen ysgolion y Dyfodol. Mae'r Cyngor yn ddiweddar wedi cymeradwyo cyllid pellach ar gyfer y rhaglen hon yn ei gyfarfod a gynhaliwyd ar 20fed Hydref 2016.

- Mae nifer o feysydd eraill lle mae ymrwymiad i fuddsoddi. Fodd bynnag, mae'r cynlluniau ar hyn o bryd yn gorwedd y tu allan i'r rhaglen fel mae gwaith yn mynd rhagddo i adnabod y gofynion cyllido.  Y rhain yw:

-Pwll Trefynwy - ymrwymiad i ail-ddarparu'r pwll yn Nhrefynwy o ganlyniad i Raglen Ysgolion y Dyfodol.

  - Hyb Y Fenni - ymrwymiad i ail-ddarparu'r llyfrgell gyda'r Siop Un Stop yn Y Fenni i gwblhau'r bwriad i greu Hyb ym mhob un o'r trefi.

  - Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – mae'r galw am grantiau ar hyn o bryd ymhell y tu hwnt i'r gyllideb, mae gwaith yn cael ei gyflawni i asesu lefel y buddsoddiad sydd ei angen i fwyafu'r effaith a'r budd i'r rheiny sy'n derbyn y grantiau.

- Y Fargen Ddinesig - Mae 10 Awdurdod ym Mhrifddinas-Ranbarth Caerdydd â'u golygon ar Fargen Ddinesig bosib o £1.2 biliwn. Ceisir cytundeb ar draws y rhanbarth i ymrwymo i'r rhaglen hon yn Ionawr 2017 ac felly byddai'n effeithio ar y CATC. Modelir yr effaith bosib ar gyllidebau awdurdodau unigol ar y blaen i benderfyniadau ar brosiectau a phroffiliau penodol er mwyn i awdurdodau ddechrau meddwl am yr ymrwymiad yn eu CATCiau..

  - Bloc J ac E – Mae rhaglen resymoli'r swyddfa'n cael ei hystyried i weld a oes ateb a fyddai'n galluogi safleoedd Magwyr a Brynbuga i gael eu hatgyfnerthu, gan ryddhau cyllid i dalu am y buddsoddiad angenrheidiol i ddod â'r blociau nôl i'w defnyddio.

- Datblygir strategaeth sy'n galluogi'r rhaglen graidd, Ysgolion y Dyfodol a'r cynlluniau uchod i gael eu cytuno. Er gwaethaf hyn, deil  cryn dipyn o bwysau sy'n gorwedd y tu allan i unrhyw bosibilrwydd i'w cyllido o fewn Cyfalaf CATC ac mae risg sylweddol ynghlwm wrth hyn. Mae'r Cabinet wedi derbyn y risg hon yn flaenorol.

.

- Y polisi presennol yw y gellir ychwanegu cynlluniau newydd pellach at y rhaglen hon yn unig os yw'r achos busnes yn dangos eu bod yn hunan-gyllidol neu'r ymddengys bod y cynllun yn flaenoriaeth uwch na chynlluniau cyfredol yn y rhaglen ac felly'n eu disodli.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 5 Ionawr, 2017 am 10.00 am**

- Yn gryno, nodwyd y materion a'r pwysau canlynol eraill:

  - Rhestr hir o bwysau wrth gefn – isadeiledd, eiddo, gwaith Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd, Hawliau Tramwy Cyhoeddus, fel yr amlinellir yn Atodiad 1 o'r adroddiad. Ni chynhwysir un rhyw rai o'r pwysau hyn yng Nghynlluniau Ariannol Tymor Canolig y cyfalaf cyfredol, ond mae hyn yn dwyn risg sylweddol gydag ef.

  - Angen buddsoddiad cyfalaf i gyflawni arbedion refeniw – mae hyn yn bennaf ym maes swyddfeydd ac edrych ar ffyrdd eraill o ddiwallu'r angen ar gyfer hamdden a diwylliant, gofal cymdeithasol, buddsoddi eiddo ac o bosib Anghenion Addysgol Ychwanegol. Ar hyn o bryd asesir y lefel o fuddsoddiad. Fodd bynnag, yn unol â'r egwyddor a sefydlwyd eisoes, os nad yw'r cynlluniau'n mynd i ddisodli unrhyw beth sydd eisoes yn y rhaglen yna bydd angen i gost unrhyw fenthyciad ychwanegol gael ei thynnu o'r arbedion i'w gwneud.

  - Mae cronfa wrth gefn TG wedi prinhau felly mae'r cyllid ar gyfer unrhyw fuddsoddiad mewn TG yn gyfyngedig. Bydd angen i unrhyw gynlluniau TG ychwanegol naill ai fedru talu drostynt eu hunain neu ddisodli cynlluniau eraill yn y rhaglen.

  - Cylchffordd Cymru – mae'r Awdurdod wedi ymgymryd â gwaith diwydrwydd dyladwy ar fersiwn o'r cynnig a ddaeth i'r casgliad i beidio â mynd rhagddo, mae'r cynnig presennol yn cael ei ystyried gan Lywodraeth Cymru heb fynd ar ofyn cyllid gan yr Awdurdod Lleol.

  .

**Craffu Aelodau:**

- Cwblheir y rhaglen gyfalaf ar yr un pryd â'r cynigion cyllideb refeniw a fydd ar 31ain Ionawr 2017.

- Gellid lleihau'r gyllideb ar gyfer Rheoli Ardal o £20,000 neu ei thorri yn wyneb pwysau eraill. Fodd bynnag, nodwyd bod y gyllideb hon wedi'i chlymu i mewn gyda'r adolygiad cyffredinol o Reoli Ardal a gaiff ei hystyried gan y Cyngor Llawn maes o law. Ystyrid bod angen penderfyniad ynghylch y mater hwn cyn gynted â phosib cyn ethol y Cyngor newydd ym Mai 2016.

- Archwilir y Cynllun Rheoli Asedau ar gyfer Ffermydd y Sir gan y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.

- Paragraff 3.4 o'r adroddiad - meysydd lle mae ymrwymiad i fuddsoddi ond mae'r cynlluniau ar hyn o bryd yn gorwedd y tu allan i'r rhaglen. Nodwyd y gallai'r Cabinet ychwanegu'r eitemau hyn i'r rhaglen Gyfalaf ar gyfer 2017/18.

- Grantiau Cyfleusterau i'r Anabl – Nodwyd, pan lansiwyd yr ymgynghoriad ar y gyllideb y gosodwyd y mater hwn allan i'w adolygu i weld pa grantiau ychwanegol y gellid eu darparu yng nghyllideb y flwyddyn nesaf. Hefyd, roedd y Cabinet yn

edrych am arian ychwanegol y gellid ei roi yng nghyllideb y flwyddyn hon fel y gellid clirio peth o'r ceisiadau wrth gefn. Roedd swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio i ddarparu atodlen waith ar gyfer y Cabinet y gellid ei hychwanegu at gyllideb y flwyddyn hon.

- Blociau J ac E - Roedd gwaith yn mynd ymlaen parthed J ac E blocks a Thŷ Menter, Magwyr. Roedd yr holl ddewisiadau mewn perthynas â'r safleoedd hyn yn cael eu hymchwilio. Cost a fforddiadwyedd oedd y materion allweddol parthed y safleoedd hyn. Felly, roedd dewisiadau'n cael eu hystyried a fyddai'n hunan-gyllidol gyda'r bwriad o ddod â Blociau J ac E i fyny i safon gyfanheddol. Roedd Achos busnes cyfannol yn cael ei sefydlu gan y Tîm Ystadau.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd bod Cynllun Rheoli Asedau Strategol yn ei le y gellid ei ddwyn gerbron y Pwyllgor Dethol mewn cyfarfod yn y dyfodol. Hefyd, edrychid ar strategaeth buddsoddi asedau gyda'r bwriad o'i dwyn gerbron yn fuan a fyddai'n edrych ar fuddsoddi mewn cyfleoedd a sicrhau enillion masnachol. Gellid ychwanegu'r ddau gynllun hwn i raglen waith y Pwyllgor Dethol.

- Cronfa TG wrth gefn – Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch cyfraniadau a wnaed unwaith gan Aelodau am eu cyfarpar TG ond a oedd wedi peidio, nodwyd bod y mater hwn wedi'i symud gan y Panel Cydnabyddiaeth Ariannol yn y Mesur Llywodraeth Leol.

- Cyfeiriodd Aelod o'r Pwyllgor Dethol at yr angen i adeiladu ysgolion cyfun newydd yn Ysgol y Brenin Harri'r VIII a Chas-gwent, er mwyn osgoi gweld yr ysgolion hyn dan anfantais. Hefyd, dylid ystyried edrych ar y posibilrwydd o adeiladu coleg arlwyo ar safle Ysgol y Brenin Harri'r VIII newydd. Mae pob un o'r 22 o awdurdodau lleol wedi cyflwyno gwybodaeth amlinellol o lefel uchel mewn perthynas â'u bwriad. Parthed cynigion Cynllun B, mae Llywodraeth Cymru'n disgwyl i awdurdodau lleol ddod ymlaen ag achosion amlinellol strategol yn y misoedd i ddod. Roedd swyddogion o fewn yr Awdurdod yn sefydlu'r ddogfen Adolygiad Addysg Strategol Diwygiedig a fydd yn trwytho, dylanwadu a llywio lle mae'r Awdurdod yn symud ymlaen mewn perthynas â'n hystâd ysgolion. Nodwyd bod y mater hwn ar Raglen Waith y Pwyllgor Dethol Plant a Phobl Ifanc i'w adolygu, maes o law.

- Ystyriodd Aelod o'r Pwyllgor Dethol y gallai Ysgol Gyfun newydd yng Nghas-gwent ganolbwyntio ar wyddoniaeth a busnes. Mewn ymateb, nodwyd, o edrych ymlaen i'r dyfodol, bod angen bod yn fwy creadigol ynghylch Cynllun B.

- Nodwyd bod y Prosiect Amaeth-Dinesig ar hyn o bryd yng nghyfnod 1 gyda'r bwriad i sefydlu cynlluniau ar 2018. Caiff colegau arlwyo a hybiau bwyd eu hystyried drwy gyfrwng y prosiect hwn.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 5 Ionawr, 2017 am 10.00 am**

**Casgliad y Pwyllgor:**

- Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion am gyflwyno'r adroddiad. .
- Mae'r cyfnod Ymgynghori'n rhedeg tan 31ain Ionawr 2017.
- Roedd angen penderfynu ar benderfyniad ynghylch yr adolygiad o Reoli Ardal cyn ethol y Cyngor Newydd ym Mai 2017.
- Y Cynllun Strategol Rheoli Asedau a'r Strategaeth Buddsoddi Asedau i'w hychwanegu i raglen waith y Pwyllgor Dethol.

5. **Drafft Gynigion Cyllideb 2017/18 er ymgynghoriad.**

**Cyd-destun:**

Craffu drafft gynigion manwl ar yr arbedion i'r gyllideb sy'n ofynnol i gwrdd â'r bwlch rhwng yr adnoddau sydd ar gael a'r angen i wario yn 2017/18. Hefyd, ystyried cyllideb 2017/18 o fewn cyd-destun y Cynllun Ariannol Tymor Canolig (CATC) pedair blynedd a blaenoriaethau'n ymddangos i lywio gweithgareddau drwy Sir Fynwy'r Dyfodol.

**Materion Allweddol:**

Archwiliodd y Pwyllgor Dethol gynigion cyllideb y Fenter, fel yr amlinellir yn Atodiad 3c o'r adroddiad, yn ymwneud â'r adrannau canlynol o fewn y Gyfarwyddiaeth Fenter:

- Twristiaeth, Hamdden a Diwylliant .
- Cynllunio.
- Tai.
- Datblygu Economaidd.

**Craffu Aelodau:**

- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch y ffaith na ellid cyflawni'r mandad ar gyfer marchnadoedd, nodwyd bod cyfle wedi codi i ailosod y Gyllideb. Felly, y flwyddyn hon, cymerwyd y cyfle i fynd i'r afael â'r gwasgbwyntiau o fewn y Gyllideb a'u hailgloriannu o fewn y Gyllideb a lleddfu'r effaith ar wasanaethau. Mae cyllideb y marchnadoedd yn syrthio i'r categori o allu ailosod y gyllideb. Cydnabyddir o fewn marchnadoedd bod problem gyda gorwariant rheolaidd o ganlyniad i ddiffyg mewn incwm. Daethpwyd â mandad uchelgeisiol drwyddo i gynhyrchu mwy o incwm. Cymerwyd y cyfle eleni i beidio â gor-estyn y gwasanaeth hwn tra deuir â'r gorwariant i lawr. Mae hyn yn caniatáu i'r marchnadoedd a'u cyllideb gael ei dwyn ymlaen mewn modd cynaliadwy.

- Ardoll Brentisiaethau - Nodwyd, parthed arian yn dod i mewn, mae'r mater hwn yn cael ei ddatrys. Mae San Steffan yn edrych ar drosglwyddo arian i Lywodraeth Cymru mewn perthynas â'r arian a gesglir drwy Ardoll Brentisiaethau. Cawn weld fel caiff yr arian hwn

ei drosglwyddo nôl i mewn i'r gymuned fusnes ac i'r awdurdodau lleol. Trafodir hyn yn eiddgar yn nhrafodaethau'r Fargen Ddinesig.

- Ailbrisiadau Ardrethi - Nodwyd bod y codiadau cyffredinol yn sir Fynwy wedi bod yn uwch i fusnesau nag mewn awdurdodau eraill yng Nghymru. O fewn Sir Fynwy mae cynnydd o 11%. Ar draws Cymru bu lleihad yn bennaf mewn ailbrisiadau ardrethi. Mae meysydd yn Sir Fynwy sydd wedi cael eu hergydio'n galed, sef yn y diwydiannau lletygarwch a manwerthu. Daeth Llywodraeth Cymru ymlaen â chronfa o £10,000,000 yn gymorth i leddfu peth o'r pwysau hyn. Fodd bynnag, grant am unwaith yn unig yw hwn, i'w ledaenu ar draws Cymru ac nid yw'n mynd i'r afael â phroblem hirdymor ardrethi. Nid yw manylion y modd y dyrennir y grant ar gael ar hyn o bryd. Bydd y Pwyllgor Dethol yn derbyn diweddariad parthed dyrannu'r grant o £10,000,000.

- Pensiynau 21.1% o gyfradd cyflogwr - Nodwyd bod awdurdodau eraill yn talu llai na'r 21.1% a delir gan Sir Fynwy. Nodwyd mai cynllun cenedlaethol yw Cynllun Pensiwn Llywodraeth Leol, felly nid oedd o fewn gallu Cyngor Sir Fynwy ar ei ben ei hun i newid y cynllun cenedlaethol. Ystyriwyd y dylid cyfeirio'r mater hwn i'r Pwyllgor Archwilio i ymchwilio paham fod Cyngor Sir Fynwy yn gorfod cario cyfradd uwch o bensiwn o gymharu ag awdurdodau lleol eraill.

- Mae cynigion cynhyrchu incwm y Gyfarwyddiaeth Fenter yn dod i £9,000. Mae'r Gyfarwyddiaeth wedi gwneud ei gorau i gynhyrchu incwm yn y blynyddoedd blaenorol. Bellach mae angen dulliau amgen o gyflawni a gwahanol ffyrdd o weithio ac mae'r rhain yn cael eu hymchwilio.

- Mandad Targed Incwm y Gwasanaethau Cyfreithiol heb ei wireddu - Byddai Pennaeth Cyllid yn cysylltu â Phennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol i nodi'r sefyllfa ddiweddaraf parthed y mater hwn.

**<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**

- Nid yw'r Gyfarwyddiaeth yn amcanu gor-estyn ei hunan. Mae'n gyfnod o atgyfnerthu.

- Sicrhau bod y Gyfarwyddiaeth yn gynaliadwy.

- Gallai Aelodau roddi cynigion cyllideb amgen gerbron erbyn 31ain Ionawr 2017.

- Cyfradd pensiwn cyflogwr o 21.1% i'w gyfeirio at y Pwyllgor Archwilio.

- Y Pwyllgor Dethol i dderbyn y wybodaeth ddiweddaraf ynghylch ailbrisiadau ardrethi a dyrannu Grant Llywodraeth Cymru o £10,000,000.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 5 Ionawr, 2017 am 10.00 am**

6. **<u>Asesiad Risg Strategol 2016.</u>**

**Cyd-destun:**

Derbyn trosolwg o'r risgiau strategol presennol sy'n wynebu'r Awdurdod, fel yr amlinellir yn Atodiad 1 o'r adroddiad.

**Materion Allweddol:**

Diweddarwyd y risgiau sy'n bodoli eisoes ar yr Asesiad Risg Strategol yn seiliedig ar dystiolaeth sydd ar gael yn 2016. Cymeradwywyd newidiadau i bolisi rheoli risg y Cabinet ym Mawrth 2015 a pharheir i'w cymhwyso i'r gofrestr o risgiau strategol Y rhain yw:

- Cynnwys sgorau o fesurau cyn-liniaru ac ôl-liniaru risg. Roedd hwn hefyd yn argymhelliad allweddol o'r archwiliad o asesu risg yn 2014.

- Sicrhau mwy o eglurder i'r ymadrodd risg fel bod pob gosodiad yn cynnwys digwyddiad, achos ac effaith..

Mae'r asesiad risg yn cwmpasu risgiau lefel uchel a lefel ganolig yn unig. Ni chofrestrir risgiau gweithredol lefel isel oni bai y rhagwelir y byddant yn dwysáu o fewn y tair blynedd a gwmpasir. Mae angen rheoli'r rhain a'u monitro drwy gynlluniau gwasanaeth timoedd.

Yn dilyn cyflwyniad i'r pwyllgorau dethol a'r Pwyllgor Archwilio, cyflwynir yr asesiad risg i'r Cabinet i'w arwyddo. Mae'r asesiad risg yn ddogfen fyw a bydd yn datblygu yng nghwrs y flwyddyn fel y daw gwybodaeth newydd i'r fei.

**Craffu Aelodau:**

- Nodwyd, cyn ei gyflwyno i'r Cabinet yn Chwefror 2017, caiff dau risg pellach eu hystyried i'w hychwanegu i'r Gofrestr, sef y risg posib o gwmpas namau yn y bas data a mynediad i rwydwaith y Cyngor yn allanol a hefyd o gwmpas ailbrisiadau ardrethi.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch yr angen am dai yn Sir Fynwy yn dod yn risg strategol, nodwyd bod hwn yn fater pwysig a'i fod yn cael ei ddatrys drwy gyfrwng y Cynllun Datblygu Lleol. Fodd bynnag, petai'r tueddiadau hyn yn parhau, yna gellid nodi'r mater fel risg posib.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor Dethol ynghylch treigl band llydan yn cael ei ddarparu gan ddatblygwyr tai, nodwyd nad oedd hyn yn fater i ddatblygwyr ei ddarparu. Roedd angen i'r Awdurdod barhau i roi pwysau ar Lywodraeth Cymru i ymgymryd â'r mater hwn, ar draws Sir Fynwy., Fodd bynnag, nodwyd bod cyfle, mewn perthynas â ffibr yn brif rwydwaith eiddo newydd, bydd hyn yn galluogi cynyddu cyflymder band llydan yn sylweddol mewn eiddo newydd.

- Nodwyd bod Llywodraeth Cymru wedi agor proses ymgynghori i roi gwybodaeth am y cylch nesaf o gyllido mewn perthynas ag isadeiledd band llydan. Bydd

angen diweddariad oddi wrth Lywodraeth Cymru i'r Pwyllgor Dethol ym Mehefin 2017 i egluro i'r Pwyllgor y sefyllfa ddiweddaraf ynghylch y mater hwn a phryd mae'r gwaith yn debygol o gael ei gwblhau. Y mater hwn i'w osod ar raglen waith y Pwyllgor Dethol.

- Mewn ymateb i gwestiwn a godwyd ynghylch risg ariannol i'r Awdurdod, nodwyd bod y mater hwn a'r ansicrwydd posib o gwmpas y mater hwn yn cael ei gwmpasu yn y gofrestr risg.

- Atodiad 1 cyf. 2, gallai rhai gwasanaethau ddod yn anghynaliadwy'n ariannol yn y tymor byr i ganolig o ganlyniad i gyllidebau'n lleihau a'r galw'n cynyddu – nodwyd yn nhermau'r gweithredu lliniarol a osodwyd yn ei le, yr amcanestyniadau yw, os bydd y rhain yn llwyddiannus, yna mae posibilrwydd lleihau'r risg hwn.

- Mewn ymateb i gwestiwn gan aelod o'r Pwyllgor Dethol, nodwyd, yn nhermau'r 'golofn lliniaru a gymerwyd eisoes' yn y gofrestr, mae hyn yn adlewyrchu'r cynnydd a wnaed yn erbyn gweithredu blaenorol a gymerwyd ar y gofrestr risg.

- Hwylusir trefniadau diogelwch drwy gyfrwng Heddlu Gwent mewn perthynas â'r Gwasanaeth Adnoddau a Rennir (GAR). Asesir y GAR yn flynyddol i sicrhau bod y trefniadau diogelwch gofynnol yn eu lle.

- Diwygio Llywodraeth Leol – Risg 1 – disgwyl y papur gwyn oddi wrth y Gweinidog.

- Nodwyd bod angen adnabod deddfwriaeth bwysig o fewn y risg presennol i'r dyfodol. Gallai Pwyllgorau Craffu dderbyn diweddariad blynyddol o gwmpas deddfwriaeth sydd o bosib i ddod.

**<u>Casgliad y Pwyllgor:</u>**

- Mae'r adroddiad yn ddogfen ddefnyddiol ar gyfer adnabod beth sydd angen i'r Pwyllgor Dethol ei graffu.

- Derbyn diweddariad ar Isadeiledd TG yr Awdurdod mewn cyfarfod yn y dyfodol.

- Mae TGCh mewn ysgolion yn fater pwysig i'r Awdurdod i ddarparu'r isadeiledd cywir ar gyfer plant. Mae angen diweddariadau i'r Pwyllgor Dethol yn y Dyfodol.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 5 Ionawr, 2017 am 10.00 am**

7. **Rhestr o gamau gweithredu sy'n codi o'r cyfarfod blaenorol.**

Penderfynasom dderbyn a nodi'r rhestr o weithredu'n codi o gyfarfod y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu a gynhaliwyd ar 24ain Tachwedd 2016.

8. **Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu.**

Fe archwiliwyd Blaenraglen Waith y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu. Wrth wneud hynny, nodwyd y pwyntiau canlynol:

- Gweithdy Twristiaeth – 12fed Ionawr 2017 am 10.00am.
- Cyfarfod y Cydbwyllgor Dethol ynghylch y Gyllideb - 31ain Ionawr 2017 am 2.00pm.
- Cyfarfod y Pwyllgor Dethol Economi a Datblygu – 9fed Chwefror 2017 am 10.00am.
- Pwyllgor Dethol Arbennig Economi a Datblygu ynghylch Tai Fforddiadwy - 14eg Chwefror 2017 am 2.00pm.
- Pwyllgor Dethol Arbennig Economi a Datblygu ynghylch y Model Cyflawni Amgen – 27ain Chwefror 2017 am 2.00pm.
- Byddai e-bost misol i'r holl Aelodau yn amlinellu'r cyfarfodydd a'r seminarau i ddod yn fuddiol.
- Adroddiad ynghylch yr enillion ar fuddsoddiad parthed y velothon sy'n berthnasol i Sir Fynwy i gael ei ychwanegu at y rhaglen waith i'w ystyried mewn cyfarfod o'r pwyllgor dethol yn y dyfodol.

Penderfynasom dderbyn y rhaglen waith a nodi'i chynnwys.

9. **Cyngor a Blaengynllun Busnes y Cabinet.**

Archwiliwyd Blaenraglen Fusnes y Cyngor a'r Cabinet. Wrth wneud hynny, nodwyd y cyflwynir y Strategaeth Buddsoddiadau Asedau i'r Cabinet yn fuan.

Penderfynasom dderbyn yr adroddiad a nodi'i gynnwys.

10. **GOHIRIO CYFARFOD –AILDDECHRAU AM 2.00PM.**

Penderfynasom ohirio'r cyfarfod gyda'r bwriad o ailgychwyn am 2.00pm.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 5 Ionawr, 2017 am 10.00 am**

**11. <u>I dderbyn cyflwyniad ynghylch y Rhanbarth y Brifddinas Caerdydd Fargen City - HOLL AELODAU'R GWAHODDIR I FYNYCHU.</u>**

Roedd Arweinydd y Cyngor, y Cynghorydd P. Fox, Prif Swyddog, Economi a Menter a Phennaeth Economi a Menter yn bresennol i ddarparu cyflwyniad ar Fargen Ddinesig Prifddinas-Ranbarth Caerdydd.

Yn ei gyflwyniad, estynnodd y Cadeirydd longyfarchiadau i'r Arweinydd ar dderbyn yr OBE.

Cynghorwyd ni fod y cyflwyniad yn fersiwn wedi'i diweddaru i honno a gyhoeddwyd ar yr agenda, a chytunwyd diweddaru'r fersiwn a gyhoeddwyd i adlewyrchu'r cyflwyniad a dderbyniwyd yn y cyfarfod.

Roedd rhai o'r meysydd y tynnwyd sylw atynt yn y cyflwyniad yn cynnwys cronfa fuddsoddi a meysydd i fuddsoddi ynddynt; pwysigrwydd llywodraethu a'r cryfder ymrwymiad, camau i symud ymlaen, a chyfraniadau ariannu a chyllido.

Yn dilyn y cyflwyniad, gwahoddwyd Aelodau i wneud sylw.

- Byddai cyfarfod Cyngor i drafod y Fargen Ddinesig ymhellach yn rhoi cyfle i feddwl am y cyfleoedd mae Sir Fynwy eisiau'u hennill o'r Fargen Ddinesig.

- Cynghorodd yr Arweinydd ei fod wedi mynychu Pwyllgor Dethol ym Mhen-y-bont ar Ogwr a oedd wedi darparu adborth cadarnhaol. Dylai'r adroddiad a'r argymhellion i'w cyflwyno i'r Cyngor llawn fod yn rhwydd i'w deall a'u cefnogi.

- Gofynnodd Aelod paham fod y Gwerth Ychwanegol Gros (GEG) yn Swydd Gaerloyw 50% yn fwy nag yn Sir Fynwy. Cyfeiriodd hefyd at yr economi ddigidol, ac ychwanegodd y gallai hyn greu ynysu digidol, a chyfeiriodd at bryderon ynghylch y Metro, gan ychwanegu y gwelid gwelliannau yn Nhwnnel Afon Hafren, ac ymhen amser, yn Y Fenni. Mewn ymateb, Mae Metro yn aml-foddol ac edrychid ar ddulliau amgen. Roedd yn bwysig bod pobl yn gallu manteisio ar gyfleoedd lle bynnag y'u lleolir, a thynnwyd sylw gennym at bwysigrwydd Grŵp Trafnidiaeth Strategol Sir Fynwy i sicrhau bod ein lleisiau'n cael eu clywed yn y ddadl ehangach o gwmpas trafnidiaeth. Eglurodd y Prif Swyddog, parthed GYG, bod ein GYG yn uwch na'r rhanbarth fel cyfanwaith, ac ers cyhoeddi'r ffigurau, eu bod wedi tyfu 4% arall. Roedd rhesymau paham nad oeddem ar yr un lefel â Sir Gaerloyw, gan fod ein heconomi'n ymwneud â thwristiaeth, hamdden, bwyd ac amaethyddiaeth na chyfrifwyd fel swyddi lefel uchel, ond mae gennym y potensial i ehangu o gwmpas ardaloedd twf. Atebodd y Pennaeth Economi a Menter y cwestiwn ynghylch eithrio digidol. Roedd swyddogion yn edrych yn ddyfal ar gyfleoedd i'r rhanbarth fod yn rhanbarth CAMPUS, gan weithio'n agos gyda chwmni o'r enw Kinetic. Nid oedd graddfeydd cysylltedd yn foddhaol ond roedd hyn yn cael sylw. Roedd peilot 'Gofod Gwyn' ar fin cychwyn sy'n defnyddio signalau hen deledu analog i ddarlledu band llydan. Cyflawnwyd gweithgarwch mapio aeddfedrwydd digidol ein cwmnïau'n ddiweddar, a ddarganfu bod y rheiny'n cael mentora unigol wedi dangos cynnydd sylweddol mewn gweithgarwch ar-lein.

**CYNGOR SIR FYNWY**

**Cofnodion y cyfarfod o Bwyllgor Dethol Datblygu Economi a ddelir yn Neuadd y Sir, Yr Rhadyr, Brynbuga, NP15 1GA ar Dydd Iau, 5 Ionawr, 2017 am 10.00 am**

- Mynegodd Aelod bwysigrwydd cadw pobl ifanc Sir Fynwy a honnodd y dylem gynnig yr addysg gywir i'n pobl ifanc. Dylai addysg gael ei theilwra fwy yn hytrach na chymryd yr agwedd fod yr un addysg yn gweddu i bawb. Cydnabuwyd ein bod dan fantais parthed lleoliad daearyddol, ac mae angen i ni sicrhau ein bod yn dal gafael ar y cyfle i bobl osod eu gwreiddiau, a thyfu'r economi. Cytunodd y Prif Swyddog â'r pwyntiau a wnaed ynghylch addysg ac ychwanegodd bod angen i ni yn ogystal ystyried hybiau menter, hybiau sgiliau a gwahanol hybiau a gwahanol fathau o brentisiaethau, wedi'u cysylltu â gradd, yn hytrach na lefel mynediad yn unig.

- Ceisiwyd sicrwydd y byddai arbenigwyr mewn addysg yn rhan o'r gweithgareddau o'r dechrau i'r diwedd, nid yn cael eu gwahodd nawr ac yn y man. Tynnwyd sylw at bwysigrwydd hyfforddiant galwedigaethol.

- Cynghorwyd Aelodau petai un o'r 10 Awdurdod yn dewis gadael y Fargen, byddai'r Fargen Ddinesig yn parhau gyda'r awdurdodau sy'n weddill.

- Parthed beth fyddai'r Fargen Ddinesig yn ei golygu'n gychwynnol, tynnodd yr Arweinydd sylw at y canlynol:

  - Sedd fel partner llawn ar yr agenda ranbarthol;
  - Statws partneriaeth yn yr economi ranbarthol a'r strategaeth arbennig;
  - Wedi'i gosod yn sylfaenol fel y pwynt agosaf yn rhanbarth y brifddinas at Fryste;
  - Cyfle i ddenu gwasanaethau bws newydd;
  - Cyfle i ddenu buddsoddiad ar gyfer band llydan;
  - Ehangu'n presenoldeb yn y farchnad brentisiaeth;
  - Mynediad i swyddi uchel eu gwerth.

Nododd Aelod y problemau o gwmpas cysylltiadau trafnidiaeth dros y Sir.

- Mynegodd Aelod y dylai Ysgol y Brenin Harri'r VIII sgael ei hailgynllunio.

- Clywsom y byddai cyflwyno rhaglen gyfnewid o gyllido i ddisodli'r cyllid Ewropeaidd ac roedd swyddogion ar hyn o bryd yn gweithio gyda chydweithwyr i ddefnyddio'r cronfeydd cyllid presennol fel trosoledd ar gyfer y Fargen Ddinesig.

Diolchodd y Cadeirydd i'r swyddogion a'r Arweinydd am y cyflwyniad. Nodwyd y byddai gwybodaeth bellach yn cael ei darparu mewn cyfarfod arbennig o'r Cyngor yn hwyrach yn y mis.

**Y cyfarfod i ben am 3.30pm.**